**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADDYSG A GWASANAETHAU IEUENCTID (PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU PWNC 1 YN FLAENOROL) - DYDD LLUN, 15 MEDI 2025**

COFNODION CYFARFOD O'R PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADDYSG A GWASANAETHAU IEUENCTID (PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU PWNC 1 YN FLAENOROL) GYNHALIWYD HYBRID IN THE COUNCIL CHAMBER - CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB YMLAEN DYDD LLUN, 15 MEDI 2025 YN 11:00

Presennol

Cynghorydd H Griffiths – Cadeirydd

| | | |
|---|---|---|
| JPD Blundell | HJ David | E D Winstanley |

Presennol o bell

| | | | |
|---|---|---|---|
| P Ford | J Llewellyn-Hopkins | R J Smith | T Thomas |
| A Wathan | AJ Williams | | |

Cynrychiolwyr Cofrestredig:

A Clarke - Cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru

Ymddiheuriadau am Absenoldeb:

I M Spiller

Robert Richards - Nyrs Arweiniol - CAMHS a Gwasanaethau Arbenigol

Cynrychiolydd y Cyngor Ieuenctid

Gwahoddwyr:

| | |
|---|---|
| Councillor Jane Gebbie | Dirprwy Arweinydd / Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant |
| Councillor M Jones | Aelod Cabinet dros Wasanaethau Addysg ac Iechyd |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc |

| | |
|---|---|
| Gayle Shenton | Pennaeth Dysgu |
| Mark Lewis | Rheolwr Grŵp (Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc) |
| Kathryn Morgan | Prif Seicolegydd Addysgol (Inc) |
| David Wright | Dirprwy Bennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| Jayde Barron | Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) |
| Gail Biggs | Rheolwr Grŵp, Cynhwynsiant |
| Megan Apsee | Rheolwr Tim Ymgysylltu Addysg |
| Clare Shears | Cydgysylltydd Rhaglen Hybu Lleoliadau Addysgol Iechyd a Lles Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg |

Prifathrawon:

| | |
|---|---|
| Ryan Davies | Prifathro, Ysgol Gyfun Brynteg |
| Mike Stephens | Pennaeth, Ysgol Gyfun Porthcawl |
| Nicola Kelly Fisher | Pennaeth, Ysgol Gynradd Gatholig Santes Fair a Sant Padrig |
| Adele Thomas | Pennaeth, Ysgol Gynradd y Drenewydd |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Rachel Keepins | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Jessica Mclellan | Swyddog Craffu |

Datganiadau o Fuddiannau

H Griffiths – Personol – Cadeirydd y Llywodraethwyr yng Ngholeg Cymunedol y Dderwen ac aelod o'r teulu yw Pennaeth Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig.

AJ Williams – Personol – Cadeirydd / Llywodraethwr Cymunedol Ysgol Gynradd Coety.

## 81. Cymeradwyo'r Cofnodion

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | **PENDERFYNWYD:**<br><br>Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Addysg a Gwasanaethau Ieuenctid |

| | |
|---|---|
| | dyddiedig 3 Gorffennaf 2025 fel cofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 15 Medi 2025 |

## 82. Cymorth Iechyd Meddwl a Lles i Ddysgwyr

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | **PENDERFYNWYD:**<br><br>Yn dilyn ystyried yr adroddiad a'i drafod yn fanwl gydag Aelodau'r Cabinet, Uwch Swyddogion a Gwahoddedigion, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion a'r ceisiadau canlynol am wybodaeth ychwanegol:<br><br>**Argymhellion**<br><br>1. O ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd gan Swyddogion a Phenaethiaid ynghylch yr effaith a gâi dileu unrhyw gyllid grant ar gyfer cymorth iechyd meddwl i ddisgyblion mewn ysgolion, yr olaf yn cyfeirio at y posibilrwydd y gallai unrhyw ddileu fod yn 'drychinebus'; **argymhellodd** yr Aelodau y dylid drafftio llythyr oddi wrth y Cadeirydd at Lywodraeth Cymru i dynnu sylw at eu pryderon a'u cefnogaeth i'r cais twf i sicrhau cyllid cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau cymorth iechyd meddwl mewn ysgolion.<br><br>2. Adroddodd swyddogion fod disgyblion oedd yn symud rhwng ysgolion mewn llawer o achosion yn aml yn gwneud hynny cyn i unrhyw wybodaeth am y disgybl gael ei rhannu rhwng yr ysgolion, gan effeithio o bosibl neu ohirio rhoi yn ei le unrhyw gymorth angenrheidiol y gallai fod ar y disgyblion hyn ei angen ar unwaith. Adroddodd swyddogion fod ysgolion wedi eu rhwymo gan bolisi Llywodraeth Cymru i dderbyn trosglwyddiad ar unwaith. Felly, **argymhellodd** y Pwyllgor y dylid gwneud cais, fel rhan o lythyr y Cadeirydd at Lywodraeth Cymru, i ystyried adolygu'r polisi hwn, er mwyn i ysgolion rannu gwybodaeth cyn i ddisgybl symud i ysgol arall, fel y gellid cynllunio unrhyw gymorth angenrheidiol y gallai fod ar y disgybl ei angen a'i roi yn ei le heb oedi.<br><br>3. Ailadroddodd y Pwyllgor ei **argymhelliad** a wnaed yn ei gyfarfod ym mis Mai 2025 yn gofyn i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol sicrhau bod materion ynghylch cyllido gwasanaethau cymorth iechyd meddwl, megis cwnsela a gwasanaethau ymyrraeth gynnar, yn cael blaenoriaeth yn y rownd gyllidebol nesaf ac iddynt beidio â chael eu hystyried fel meysydd ar gyfer unrhyw arbedion posibl. Roedd hyn yn destun pryder arbennig o ystyried y wybodaeth a adroddwyd gan Benaethiaid fod llawer o ysgolion eisoes yn cyfeirio rhan o'u cyllidebau dirprwyedig tuag at y gefnogaeth hon, yn ychwanegol at y cyllid grant. **Argymhellodd** yr aelodau ymhellach y dylai'r Grŵp Ymchwil Ddofn |

| | |
|---|---|
| | Addysg a ffurfiwyd fel rhan o Weithgor Cyllideb y Pwyllgor Craffu ystyried y maes hwn fel rhan o'u cylch gwaith, gan archwilio'r costau cyfredol, pa grantiau sydd mewn perygl o bosibl a pha gyllid fyddai ei angen yn y dyfodol i barhau i ddarparu'r gefnogaeth angenrheidiol i ddisgyblion.<br><br>**Ceisiadau am Wybodaeth Ychwanegol:**<br><br>a) Cytunwyd y câi unrhyw ymchwil yn y dyfodol a data a gesglid mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru ar raglen y Cynorthwyydd Cymorth Llythrennedd Emosiynol (ELSA) ei rhannu ag aelodau'r Pwyllgor.<br>b) Gofynnodd y Pwyllgor i sesiwn friffio gael ei chynnal ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor er mwyn archwilio pa gefnogaeth y mae'r Awdurdod Lleol yn ei darparu ar gyfer disgyblion sy'n cael eu haddysgu gartref.<br>c) Gofynnodd y Pwyllgor am eglurder ynghylch y ffordd y caiff disgyblion eu mesur a'u dosbarthu fel NEET (heb fod mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant).<br>d) Gofynnodd y Pwyllgor am wybodaeth ynghylch y protocol ar gyfer 'Symudiadau Rheoledig' yn ogystal â ffigurau oedd yn dangos sut roedd y rhain yn cael eu monitro i asesu eu llwyddiant.<br>e) Er eu bod yn cydnabod datblygiad y Strategaeth Gomisiynu Deuluol, gwnaeth yr Aelodau sylw am y ffaith mai ar y plant â'r angen mwyaf, sef y rhai mwyaf agored i niwed, yr oedd y strategaeth hon yn canolbwyntio i raddau helaeth a gofynnwyd am eglurder p'un a oedd yna unrhyw strategaeth o'r fath oedd yn canolbwyntio ar y cyd-destun ehangach ac yn edrych, neu'n sylwi, ar y plant i gyd.<br><br>**Craffu Ymhellach / Blaenraglen Waith**<br><br>Gwnaeth y Pwyllgor sylwadau ar y ffaith fod yr adroddiad yn cyfeirio at lawer o weithgarwch ac allbynnau yn ymwneud â chefnogaeth i ddisgyblion â phroblemau iechyd meddwl, ond mai prin oedd y sôn am ganlyniadau a sut y câi'r rhain eu mesur. Roedd tystiolaeth a dderbyniwyd gan benaethiaid hefyd yn tynnu sylw at y ffaith fod y sefyllfa'n ymddangos fel pe bai'n gwaethygu gyda mwy o ddisgyblion yn cael problemau iechyd meddwl. Holodd yr aelodau sut roedd hyn yn dod yn hysbys a sut y câi ei fesur. Felly, dylai ystyriaeth yn y dyfodol gan y Pwyllgor Craffu gynnwys sut mae'r Awdurdod a'r ysgolion yn mesur ac yn monitro'r sefyllfa a sut rydym yn gwerthuso effeithiolrwydd unrhyw gefnogaeth sy'n cael ei darparu. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 15 Medi 2025 |

## 83. Adroddiad Gwybodaeth - Chwarter 4 / Perfformiad Diwedd Blwyddyn 2024-25

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | **PENDERFYNWYD:**<br><br>Nododd y Pwyllgor gynnwys yr adroddiad a'i atodiadau a gwnaeth y ceisiadau canlynol am wybodaeth ychwanegol:<br><br>**Gwybodaeth Ychwanegol**<br><br>a) Cyfeiriodd yr aelodau at DEFS 156 yn yr adroddiad 'Nifer yr ysgolion a farnwyd gan Estyn i fod yng nghategori 'gwelliant sylweddol' neu 'fesurau arbennig' a gofynnwyd am eglurder ynghylch sut yn union yr oedd yr Awdurdod Lleol yn monitro ysgolion a'u perfformiad fel, pe bai ysgol yn cael ei rhoi mewn mesurau arbennig, na fyddai hynny'n destun syndod mawr.<br><br>b) Gofynnodd yr Aelodau am ddiweddariadau ar gynnydd y canlynol:<br><br>• WBO3.4.2 'Gofal plant agored cyfrwng Cymraeg yn Nyffryn Ogwr a Betws, gyda 32 o leoedd gofal plant cyfwerth ag amser llawn'.<br>• BO4.4.4 Darparu ysgol gyfrwng Saesneg newydd â dau ddosbarth mynediad i gymryd lle Ysgolion Cynradd presennol Afon y Felin a Chorneli. (EEYYP) |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 15 Medi 2025 |

## 84. Diweddariad y Flaenraglen Waith

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | **PENDERFYNWYD:**<br><br>Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr adroddiad, cymeradwyodd y Flaenraglen Waith yn Atodiad A, a **gofynnodd** am i'r Gyfarwyddiaeth gael ei holi ynghylch yr ymatebion brys i argymhellion blaenorol y Pwyllgor oedd heb eu cyflawni yn Atodiad B. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 15 Medi 2025 |

## 85. Materion Brys

**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADDYSG A GWASANAETHAU IEUENCTID (PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU PWNC 1 YN FLAENOROL) - DYDD LLUN, 15 MEDI 2025**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Dim |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 15 Medi 2025 |

I arsylwi dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon.

Terfynwyd y cyfarfod yn 12:40.